


# Jo

**Mae Jo yn angerddol am ddysgu ac yn ffynnu ar ddarganfod pethau newydd. Fel Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd, TG a Chyfrifiadura, mae ei brwdfrydedd dros faes cynyddol cyfrifiadura yn gyrru ei gyrfa addysgu.**

"Ces i fy ysbrydoli i fod yn athrawes oherwydd rydw i wrth fy modd yn dysgu. Roedd cyfrifiadura yn rhywbeth newydd, ac roeddwn i eisiau datblygu'r sgiliau hynny. Rwy'n angerddol am fy mhwnc, ac rwyf hefyd yn angerddol am sicrhau bod unigolion yn cael y gorau o'u dysgu."

**Darganfu Jo ei pherthynas â dysgu tra'n gweithio fel datblygwr. Mae'n rhannu sut y dysgodd ei phrofiad yn hyfforddi oedolion i ddefnyddio technoleg ei bod wrth ei bodd yn addysgu eraill.**

"Doeddwn i ddim yn meddwl i ddechrau fy mod i eisiau mynd i ddysgu. Yn gyntaf, fe wnes i radd pwnc ac es i mewn i ddatblygu, ac roedd hynny'n gyfle da iawn i mi ddarganfod fy mod eisiau mynd i addysgu. Wrth ddatblygu cefais gyfle i fod yn rhan o'r tîm hyfforddi, a dyna le cefais fy ysbrydoli. Roedd hyn oherwydd fy mod yn dysgu oedolion sut i ddefnyddio technoleg a sylweddolais fy mod yn caru'r rhyngweithio wyneb yn wyneb hwnnw, roeddwn wrth fy modd â'r cyfathrebu hwnnw."

**I Jo, roedd diffyg cynrychiolaeth yn yr ystafell ddosbarth wedi ei hysgogi i ddod yn newid yr oedd am ei weld ac effeithio ar ddyheadau addysg a gyrfa dysgwyr a myfyrwyr o gefndiroedd Ethnig Leiafrifoedd.**

"Yr agosaf ges i at rywun o wlad arall oedd yn ystod fy ngwersi Ffrangeg. Mae cael cynrychiolaeth ethnig leiafrifol yn hanfodol. Byddwn i wedi hoffi gweld rhywun fel fi, ond wnes i ddim, felly dwi'n meddwl mai dyna wnaeth i mi deimlo bod angen i mi wneud y gwahaniaeth hwnnw."

**Mae neges Jo i ddarpar athrawon yn glir: byddwch yn gatalydd ar gyfer newid a gwnewch hynny ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen pobl fel chi yn eu hystafelloedd dosbarth.**

"Fy nghyngor i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n dechrau addysgu yw: gwnewch hynny. Rydyn ni angen athrawon fel chi. Oherwydd dyma ein dyfodol, ac mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein plant yn cael y gynrychiolaeth honno ym mhobman."